OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2004 Rhif 2733 (Cy.240)

ADDYSG, CYMRU

Rheoliadau Addysg (Safonau Iechyd) (Cymru) 2004

Wedi'u gwneud - -	*19 Hydref 2004*
Yn dod i rym - -	*31 Hydref 2004*

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan adrannau 141 ac 210(7) o Ddeddf Addysg 2002(**1**).

Enwi, cychwyn a chymhwyso

1. Enw'r Rheoliadau hyn yw'r Rheoliadau Addysg (Safonau Iechyd) (Cymru) 2004 a deuant i rym ar 31 Hydref 2004.

2. Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys i Gymru.

Dehongli

3. Yn y Rheoliadau hyn—

ystyr "addysgu" ("*teaching*", "*to teach*") yw cyflawni unrhyw weithgaredd o'r fath a ragnodwyd gan reoliad 5(1)(a) i (ch);

mae "cyflogwr" ("*employer*") yn cynnwys person sy'n cymryd person arall ymlaen i ddarparu gwasanaethau heb iddo fod o dan gontract cyflogaeth;

ystyr "Deddf 2002" ("*the 2002 Act*") yw Deddf Addysg 2002;

ystyr "gweithgaredd perthnasol" ("*relevant activity*") yw gweithgaredd o'r fath a ragnodir gan reoliad 5(1)(a) i (f); ac

ystyr "rhan-amser" ("*part-time*") yw gweithio am ddim mwy na dau ddiwrnod a hanner o ddyddiau gwaith arferol, neu gyfnod cyfatebol, mewn unrhyw wythnos waith.

Dirymiadau

4. Dirymir rheoliadau 5, 6 a 7 o Reoliadau Addysg (Cymwysterau a Safonau Iechyd Athrawon) (Cymru) 1999(**2**).

(**1**) 2002 p.32. *Gweler* adran 212 am yr ystyron sydd i "*prescribed*" a "*regulations*".
(**2**) O.S. 1999/2817 (Cy.18), fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2002/1663 (Cy.158), 2002/2938 (Cy.279), 2003/140 (Cy.12), 2003/2458 (Cy.240), ac fel y dirymwyd rhan fawr ohono gan O.S. 2004/1729 (Cy.173) a 2004/1744 (Cy.183).

Gweithgareddau rhagnodedig

5.—(1) Mae'r holl fathau o weithgareddau a ganlyn wedi'u rhagnodi at ddibenion adran 141 o Ddeddf 2002—

(a) cynllunio a pharatoi gwersi a chyrsiau i blant;

(b) cyflwyno gwersi i blant;

(c) asesu datblygiad, cynnydd a chyrhaeddiad plant;

(ch) adrodd ar ddatblygiad, cynnydd a chyrhaeddiad plant;

(d) gweithgaredd sy'n cynorthwyo neu'n cefnogi addysgu;

(dd) goruchwylio, cynorthwyo a chefnogi plentyn;

(e) gweithgaredd gweinyddol neu drefniadol sy'n cefnogi wrth ddarparu addysg; ac

(f) gweithgaredd sy'n atodol i ddarparu addysg.

(2) Ym mharagraff (1)(b), mae "cyflwyno" yn cynnwys cyflwyno drwy ddysgu o bell neu drwy ddulliau dysgu â chymorth cyfrifiadur.

Safonau iechyd

6.—(1) Ni chaiff person wneud gweithgaredd perthnasol oni bai bod ganddo'r gynneddf gorfforol neu'r iechyd i wneud y gweithgaredd hwnnw, o ystyried unrhyw ddyletswydd sydd ar y cyflogwr o dan Ran II o Ddeddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd 1995(**3**).

(2) Yn ddarostyngedig i baragraff (3), nid ystyrir fod gan berson sy'n derbyn pensiwn ymddeol, yn rhinwedd rheoliad E4(4) o Reoliadau Pensiynau Athrawon 1997(**4**) (ymddeol oherwydd afiechyd), y gynneddf gorfforol na'r iechyd i addysgu.

(3) Nid yw paragraff (2) yn gymwys i berson a benodwyd i addysgu yn rhan-amser os oedd hawl y person i gael pensiwn o'r fath, fel y'i disgrifir yn y paragraff hwnnw, yn effeithiol cyn 1 Ebrill 1997.

(4) Os cyfyd unrhyw gwestiwn o ran cynneddf gorfforol neu iechyd person i wneud gweithgaredd perthnasol y mae wedi'i gymryd ymlaen i'w wneud, penderfynir ar y cwestiwn hwnnw yn unol â rheoliad 7.

Penderfyniadau o ran cynneddf gorfforol neu iechyd

7.—(1) Rhaid unrhyw gwestiwn fel y cyfeirir ato yn rheoliad 6(4) gael ei benderfynu gan y cyflogwr ac, er mwyn iddo wneud hynny —

(a) rhaid iddo roi cyfle i'r person roi tystiolaeth feddygol gerbron a gwneud sylwadau i'r cyflogwr;

(b) rhaid i'r cyflogwr ystyried y cyfryw dystiolaeth a sylwadau ac unrhyw dystiolaeth feddygol arall sydd ar gael iddo, gan gynnwys tystiolaeth feddygol sy'n ymwneud â'r person ac a roddwyd i'r cyflogwr yn gyfrinachol ar y sail na fyddai er lles y person dan sylw i'w gweld, a hynny yn nhyb y person a roddodd y dystiolaeth;

(c) gall y cyflogwr ei gwneud yn ofynnol i'r person gael ei archwilio gan ymarferydd meddygol a chanddo gymhwyster priodol ac a benodwyd gan y cyflogwr;

(ch) rhaid iddo drefnu archwiliad felly os yw'r person dan sylw yn gofyn amdano; ac

(d) os nad yw'r person yn ymddangos i gael ei archwilio heb reswm da, neu os yw'n gwrthod neu'n methu â rhyddhau'r wybodaeth feddygol neu wybodaeth arall i'r ymarferydd meddygol y caiff ef ofyn amdani yn rhesymol, caiff y cyflogwr ddod i'r casgliad nad oes

(**3**) 1995 p.50.
(**4**) O.S. 1997/3001 fel y'i diwygiwyd gan O.S. 1998/2255, 1999/607, 2000/665, 2000/2431, 2000/3028, 2001/871 a 2002/3058.